| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad / Y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward, Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Swyddfa Archwilio Cymru: Gwaith a Ffioedd Archwilio Perfformiad 2013-14** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r rhaglen gwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2013-14 a'r ffi gysylltiedig ar gyfer y gwaith hwnnw.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r gwaith archwilio perfformiad a fydd yn cael ei wneud yng Nghyngor Sir Ddinbych gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2013-14.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau'n ystyried y rhaglen gwaith archwilio perfformiad, sydd ynghlwm yn Atodiad I, ac yn codi unrhyw faterion neu ymholiadau gyda Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn bresennol yn y cyfarfod i'w cyflwyno i'r rhaglen.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn amlinellu'r gwaith i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ar ei ran dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhannau 2 a 3A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'n amlinellu hefyd y ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae a wnelo tipyn o'r gwaith archwilio perfformiad yn uniongyrchol â Blaenoriaethau Corfforaethol y cyngor. Er enghraifft, mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliad blynyddol cynllun gwella cyhoeddedig y cyngor (h.y. y Cynllun Corfforaethol) a'n hasesiad o berfformiad (h.y. ein Hadolygiad o Berfformiad Blynyddol).

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ffi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yn 2013-14 yw £120,081 (a TAW, fel y bo'n berthnasol), fel y manylir arni ar dudalen 3 y ddogfen atodedig.

**7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid cysylltu templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gorffenedig fel atodiad i'r adroddiad.**

Ni wnaed asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar y papur hwn gan nad oes angen penderfyniad. Fodd bynnag, mae rhan o waith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys asesiad ynghylch ydy'r cyngor yn bodloni dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb gan gynnwys yr angen i ymgymryd ag asesiadau o effaith ar gydraddoldeb o'i benderfyniadau. Felly, dylai gwaith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol gael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd?**

Trafodwyd y rhaglen ddrafft gyda swyddogion perthnasol, gan gynnwys y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad a'r Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol cyn iddi gael ei thrafod gyda'r Prif Weithredwr a'i chytuno ganddo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r ffi archwilio'n cynrychioli swm sylweddol o wariant a dylai'r aelodau sicrhau eu bod yn glir ynghylch y buddiannau a gafwyd.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?**

Mae canlyniadau'r gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys adroddiadau'r cyrff rheoleiddio (fel Swyddfa Archwilio Cymru) a dynodir "y risg o adroddiad(au) negyddol sylweddol gan reoleiddwyr allanol yn ein Cofrestr Risg Corfforaethol. Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol yw'r prif ddull sydd ar waith i reoli'r risg hwn a nodwyd y cam canlynol fel un y mae ei angen i leihau'r risg anodd cael gwared arno ymhellach:

- Datganiad llywodraethu blynyddol a hunanasesiad corfforaethol i'w integreiddio'n un hunanasesiad blynyddol.

**11. Y Grym i wneud y Penderfyniad**

Mae hwn yn bapur er gwybodaeth, yn hytrach nag ar gyfer gwneud penderfyniad.